

# Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro

## Tasgau Cyfoethog

<b>Ardal: Clawdd – gorau po hynaf ydyw</b>	<b>Grŵp Blwyddyn y CC:</b> <b>Blynyddoedd 5/6</b>
<b>Amcan Dysgu:</b> Archwilio oedran gwahanol gloddiau	
<b>Maes Dysgu: Mathemateg/Rhifedd/ Rhaglen Astudio Mathemateg</b> <u>Datblygu Ymresymu Rhifyddol</u> Adnabod prosesau a chysylltiadau <ul style="list-style-type: none"><li>Trosglwyddo sgiliau mathemategol i amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd bob dydd</li><li>Adnabod y camau a'r wybodaeth briodol sydd eu hangen er mwyn cwblhau'r dasg neu gyrraedd datrysiad</li><li>Dewis mathemateg a thechneg briodol i'w defnyddio</li><li>Dewis strategaeth feddwl neu ysgrifenedig briodol a gwybod pryd mae'n briodol defnyddio cyfrifiannell.</li></ul> <b>Cynrychioli a chyfathrebu</b> <ul style="list-style-type: none"><li>Egluro canlyniadau a gweithdrefnau'n glir drwy ddefnyddio ieithwedd fathemategol</li><li>Adnabod patrymau sy'n codi mewn sefyllfaoedd rhifyddol, gofodol neu ymarferol, a defnyddio geiriau i'w disgrifio'n gyffredinol.</li></ul> <b>Adolygu</b> <ul style="list-style-type: none"><li>Dewis o blith ystod gynyddol o strategaethau gwirio er mwyn penderfynu a yw atebion yn rhesymol</li><li>Dehongli atebion yng nghyd-destun y broblem ac ystyried a yw'r atebion yn synhwyrol, gan gynnwys dangosyddion cyfrifiannell, analog a digidol.</li></ul> <b>Rhif, data – Sgiliau</b> <ul style="list-style-type: none"><li>Defnyddio <b>cymedr</b>, canolrif, modd ac <b>amrediad</b> i ddisgrifio set ddata (B5 a 6)</li><li>Lluosi a rhannu rhifau a degolion â 10 a 100 (B5)</li><li>Gwirio atebion drwy ddefnyddio gweithrediadau gwrthdro (B6).</li></ul>	
<b>Pennawd (Addas i Blant)</b>  Mae Mr Brown eisiau gwybod pa mor hen yw ei gloddiau. Helpwch Mr Brown i gyfrifo oedran ei glawdd.	
<b>Meini Prawf Llwyddiant</b>  Byddwch yn mesur darn o glawdd ac yn cyfrifo nifer y rhywogaethau sydd i'w gweld yn y clawdd. Byddwch yn defnyddio'r fformiwla i gyfrifo oedran y clawdd.	
<b>Beth i'w wneud:</b>	

Ar gyfer rhan y coed a'r llwyni, rhannwch y clawdd yn rhannau 30m hir wrth i chi gerdded ar hyd y clawdd, tan i chi gyrraedd y diwedd (os nad oes gennych dâp mesur, mae 1 cam hir tuag 1 metr).

Rheol Hooper yw'r dull o fesur oedran clawdd a ddefnyddiwyd gennym isod i'ch helpu i ddarganfod pa mor hen yw'ch clawdd. Mae cyfartaledd o un rhywogaeth o lwyn fesul pob rhan 30 metr yn rhoi oedran o 100 mlynedd i ni – o fewn 100 mlynedd, fwy neu lai! Felly, oedran clawdd gyda 10 llwyn ar gyfartaledd, fyddai rhwng 900 a 1100 mlwydd. Byddai clawdd â 3 llwyn rhwng 200 a 400 mlwydd oed. Nid yw'r system hon yn gweithio gyda chloddiau sydd newydd eu plannu, sy'n aml yn cael eu plannu gyda llawer o rywogaethau. Ond, dylai fod yn weddol gywir ar gyfer cloddiau dros 100 oed. O'i chyfuno gyda mapiau a/neu dystiolaeth ddogfennol, mae'n ddull grymus ar gyfer mesur oedran cloddiau.

Mae nifer y gwahanol rywogaethau o goed a llwyni mewn clawdd yn dweud wrthym ni'n fras pa mor hen yw'r clawdd:

Example for a 120m long hedge (four 30m sections)	Section number in hedge			
Trees and Shrubs	1	2	3	4
Ash		x	x	
Blackthorn	x		x	x
No of species/section	1	1	2	1

Average =  $\frac{1 + 1 + 2 + 1}{4 \text{ segments}} = 1.25$   
Age =  $1.25 \times 100 = 125$  Years old

Tasg:

Mae angen i chi ddod o hyd i oedran y clawdd gan ddefnyddio Rheol Hooper.

Fel grŵp, trafodwch sut byddech chi'n gwneud hyn a gwnewch gynllun. Penderfynwch beth fydddech chi'n ei wneud yn gyntaf, yn ail, yn drydydd ac ati.

*Nodiadau'r athrawon: (Mae'r canlynol yn awgrymu sut gallai'r plant gwblhau'r dasg. Dylech eu tywys i'r cyfeiriad hwn drwy eich cwestiynu).*

*Wrth i chi gerdded ar hyd y clawdd, cofnodwch nifer y rhywogaethau o goed a llwyni sydd mewn rhannau 30m hir ar hyd y clawdd, gan ddefnyddio'r tabl ar dudalen 4 (os nad oes gennych dâp mesur, mae 1 cam mawr tuag 1 metr)*

*Darganfyddwch nifer cyfartalog y rhywogaethau a welir ym mhob adran trwy adio nifer y rhywogaethau sydd i'w gweld ym mhob rhan a rhannu'r cyfanswm yn ôl nifer yr adrannau.*

*Mae angen i chi luosi'r nifer cyfartalog o rywogaethau â 100 i ddod o hyd i'r oedran.*

**Adnoddau:**

Taflen adnabod rhywogaethau (nid yw'n hanfodol)

Tâp mesur (nid yw'n hanfodol) 1m = 1 cam

Siart fformiwlâu

Dull cofnodi